Tywysog Cymru a Duges Cernyw
Adolygiad Blynyddol 2008

ADOLYGIAD BLYNYDDOL 2008

Diben yr Adolygiad Blynyddol hwn yw cynnig golwg cyffredinol o weithgareddau swyddogol ac elusennol Tywysog Cymru a Duges Cernyw. Mae hefyd yn cynnig gwybodaeth am eu hincwm a'u gwariant swyddogol ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2008.

Mae'r Adolygiad yn disgrifio rôl a gweithgareddau Tywysog Cymru sydd â thair prif elfen: cyflawni dyletswyddau brenhinol er mwyn cefnogi'r Frenhines, gweithio fel entrepreneur elusennol, a hybu ac amddiffyn traddodiadau, rhinweddau a rhagoriaeth y genedl.

www.princeofwales.gov.uk
Mae manylion ar wefan y Tywysog am yr holl ymrwymiadau swyddogol, ynghyd ag areithiau, erthyglau a llawer o wybodaeth fywgraffyddol a ffeithiol.

CYNNWYS

ERTHYGLAU ARBENNIG
TUDALEN 10
PROJECT FFORESTYDD GLAW'R TYWYSOG

TUDALEN 14 TŶ DUMFRIES

TUDALEN 14 MENTER GOGLEDD YR UCHELDIROEDD

TUDALEN 16 YR YMDDIRIEDOLAETH BRYDEINIG ASIAIDD

02 | 09	**CYFLWYNIAD**
02 | 03	Crynodeb
04 | 05	Ymrwymiadau a gweithgareddau
06 | 07	Cyfrifoldebau amgylcheddol a chymdeithasol
08 | 09	Dugaeth Cernyw
10 | 17	ERTHYGLAU ARBENNIG
10 | 11	Project Fforestydd Glaw'r Tywysog
12 | 13	Tŷ Dumfries
14 | 15	Menter Gogledd yr Ucheldiroedd
16 | 17	Yr Ymddiriedolaeth Brydeinig Asiaidd
18 | 23	**CEFNOGI'R FRENHINES**
20 | 21	Y Deyrnas Unedig a thramor
22 | 23	Y Gwasanaethau Arfog
24 | 37	**ENTREPRENEUR ELUSENNOL**
26 | 27	£122 miliwn at elusennau
28 | 29	Cyfle a menter
30 | 31	Busnes cyfrifol
32 | 33	Yr amgylchedd adeiledig
34 | 35	Addysg
36	Iechyd
37	Menter gymdeithasol
38 | 41	**HYBU AC AMDDIFFYN**
40 | 41	Tynnu sylw at rai materion
42 | 57	**INCWM, GWARIANT A STAFF**
44	Cyfrif incwm a gwariant
44 | 45	Incwm ac ariannu
46 | 47	Gwariant
48 | 52	Staff
53	Ymweliadau blynyddol
53	Dadansoddiad o'r costau swyddogol yn ôl categori gwariant
54 | 57	Cyfrif cynaliadwyedd
58 | 60	**ATODIAD**
58 | 59	Portffolios yr Uwch Reolwyr
60	Elusennau'r Tywysog

CRYNODEB

Mae'r Adolygiad Blynyddol hwn yn cynnwys y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2008. Gyda'r cyflwyniad yma a dewis o ddigwyddiadau'r flwyddyn, mae pum prif adran iddo: un yn arbennig ar gyfer erthyglau sy'n tynnu sylw at waith mentrau ac elusennau Tywysog Cymru; tair yn esbonio pob un o brif elfennau rôl Ei Uchelder Brenhinol, a phumed adran sy'n manylu ar ddull ariannu ei weithgareddau a'i swyddfa ac yn esbonio'u heffaith amgylcheddol.

Er nad oes gan Etifedd Yr Orsedd rôl gyfansoddiadol sefydlog, mae'r Tywysog, gyda chymorth ei wraig Duges Cernyw, yn ceisio gwneud cymaint â phosib i ddefnyddio'i safle unigryw i wella pethau yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol. Mae'n bosib rhannu ffordd Ei Uchelder Brenhinol o gyflawni hyn yn dair rhan gyffredinol.

TUDALEN 18 CEFNOGI'R FRENHINES

Cyflawni dyletswyddau brenhinol er mwyn cefnogi'r Frenhines
Mae hyn yn golygu bod y Tywysog yn cefnogi'r Frenhines yn ei rôl fel canolbwynt balchder, undod a theyrngarwch y genedl. Mae'n dod â phobl o bob rhan o gymdeithas at ei gilydd, ac yn cynrychioli sefydlogrwydd a dilyniant, tynnu sylw at gyflawni, a phwysleisio pwysigrwydd gwasanaeth a'r sector gwirfoddol drwy annog a gosod esiampl.

TUDALEN 24 ENTREPRENEUR ELUSENNOL

Gweithio fel entrepreneur elusennol
Ers nifer o flynyddoedd, bu'r Tywysog yn gweithio i adnabod angen elusennol ac i sefydlu a hybu elusennau i ddiwallu'r angen hwn. Erbyn heddiw, yr enw ar y grŵp craidd o 19 mudiad yw Elusennau'r Tywysog, a'r grŵp hwn yw menter elusennol fwyaf y DU sy'n cwmpasu amryw o achosion. Bob blwyddyn, mae Ei Uchelder Brenhinol yn helpu i godi, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, dros £100 miliwn i gynorthwyo gwaith ei elusennau. Ar ben hynny, mae'r Tywysog wedi creu chwe menter gymdeithasol, ac mae elw'r rheini hefyd yn mynd at elusennau.

TUDALEN 38 HYBU AC AMDDIFFYN

Hybu ac amddiffyn traddodiadau, rhinweddau a rhagoriaeth y genedl
Mae'r gwaith yn cynnwys cefnogi cymunedau cefn gwlad Prydain, hybu goddefgarwch a dealltwriaeth rhwng gwahanol ffydd a chymunedau, a thynnu sylw at gyflawniadau neu faterion a allai, heb ei gefnogaeth, gael ychydig iawn o sylw. Yn y cyswllt hwn, mae Ei Uchelder Brenhinol yn aml yn symbylu trafodaethau neu newidiadau yn sgil ei gysylltiadau â Gweinidogion y Llywodraeth a phobl ddylanwadol eraill, a thrwy areithio ac ysgrifennu erthyglau. Wrth wneud hyn, mae bob amser yn gofalu nad yw'n mentro i ddadleuon rhwng y pleidiau gwleidyddol. Mae'n cyfathrebu â Gweinidogion fel aelod o'r Cyfrin Gyngor er mwyn tynnu sylw at faterion y mae pobl yn eu crybwyll yn ystod ei ymweliadau ar draws y wlad.

Wrth gyflawni ei waith fel Etifedd yr Orsedd, mae Tywysog Cymru'n cael cefnogaeth gyson ei wraig, Duges Cernyw. Yn hytrach na chwilio am broffil cyhoeddus amlwg ei hun, cefnogi ei gŵr yw prif rôl Ei Huchelder Brenhinol trwy fynd gydag ef i lawer o'i ymrwymiadau cyhoeddus ar draws y wlad a thramor. Mae'r Dduges hefyd yn mynd i ddigwyddiadau ar ei phen ei hun, ac mae'n gwneud gwaith elusennol a gwaith arall. Wrth reswm, bu'r ffaith ei bod hi'n gwella ar ôl llawdriniaeth fawr y llynedd yn gyfrifol am gwtogi ar gyfanswm ei hymrwymiadau cyhoeddus.

INCWM A GWARIANT

Am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth	2008 £000oedd	2007 £000oedd
Incwm o Ddugaeth Cernyw	16,273	15,174
Ariannu drwy Grantiau Cymorth ac adrannau'r Llywodraeth	2,454	2,454
Cyfanswm yr incwm a'r ariannu	**18,727**	**17,628**
Gwariant swyddogol	10,451	9,714
Gweddill ar ôl y costau swyddogol	**8,276**	**7,914**
Treth	3,429	3,434
Gwariant answyddogol	2,217	2,614
Gwariant cyfalaf (llai dibrisio), ad-daliadau benthyciad a throsglwyddo i gronfeydd wrth gefn	2,436	1,671
Gwarged arian net	**194**	**195**

Mae data ariannol hanesyddol ar:
www.princeofwales.gov.uk/mediacentre/annualreview

CYFRIF CYNALIADWYEDD

Am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth	2008 tunelli metrig	2007 tunelli metrig
Allyriadau CO_2 cyfwerth		
Yr Aelwyd	2,795	3,425
Home Farm	2,459	2,314

"Mae'r Tywysog wedi bod yn tynnu sylw ers blynyddoedd lawer at broblemau newid yn yr hinsawdd, sy'n cynnig mwy a mwy o her i ni, ac un o ddigwyddiadau arwyddocaol y flwyddyn oedd sefydlu ei Broject Fforestydd Glaw."

Crynodeb

Mae ffordd Tywysog Cymru o fynd ati i gyflawni ei ddyletswyddau cyhoeddus yn weddol gyson o'r naill flwyddyn i'r llall, a'r prif themâu yn ystod 2007-08 oedd yr amgylchedd, yr amgylchedd adeiledig (yn arbennig o ran cynllunio mwy o gymunedau cynaliadwy a hybu adfywio ardaloedd o amddifadedd), cefnogaeth Eu Huchelderau Brenhinol i'r Lluoedd Arfog, a'u gwaith ar ran Prydain ar eu hymweliadau tramor.

Bu'r Tywysog yn tynnu sylw ers blynyddoedd lawer at broblemau newid yn yr hinsawdd, sy'n cynnig mwy a mwy o her i ni, ac un o ddigwyddiadau arwyddocaol y flwyddyn oedd sefydlu ei Broject Fforestydd Glaw (cyfeiriwch at dudalennau 10 ac 11).

Gan fod y Lluoedd Prydeinig yn gwasanaethu ym mhob rhan o'r byd, yn arbennig yn Irac ac Affganistan, mae rôl y Teulu Brenhinol yn un bwysig wrth dynnu sylw at eu gwaith a'u haberth a chynnal ysbryd aelodau'r byddinoedd a'u teuluoedd.

Roedd sawl un o ymrwymiadau'r Tywysog a'r Dduges yn ystod y flwyddyn yn ymwneud â'r Lluoedd Arfog. Yn eu plith oedd cyflwyno medalau gwasanaeth i'r dynion a'r merched a oedd newydd ddod yn ôl ar ôl gwasanaethu yn Irac ac Affganistan. Ymhlith y rhai a oedd yn dod yn eu holau oedd Tywysog Harry a fu'n gwasanaethu am 10 wythnos yn Affganistan gyda'i gatrawd, Marchfilwyr yr Aelwyd.

Yr un fath â'r llynedd, roedd 2007-08 yn arbennig o bwysig yn nhermau ymweliadau tramor. Aeth Eu Huchelderau Brenhinol ar ymweliad swyddogol ag Uganda lle'r oedd Tywysog Cymru, am y tro cyntaf erioed, yn cymryd rhan yn un o gyfarfodydd tramor Penaethiaid Llywodraethau Gwledydd y Gymanwlad. Aethant ar ymweliad hefyd â Thwrci, lle mae'r DU yn cynorthwyo'r broses o ddatblygu Twrci fel democratiaeth seciwlar, a phrif themâu'r ymweliad â phum gwlad yn y Caribî oedd yr amgylchedd, y Gymanwlad a'r frwydr yn erbyn smyglo cyffuriau a throseddu rhyngwladol. Aeth y Tywysog ar sawl ymweliad tramor ar ei ben ei hun, yn cynnwys un â Gwlad Belg lle'r oedd yn annerch Senedd Ewrop ym Mrwsel ynglŷn â newid yn yr hinsawdd.

YMRWYMIADAU A GWEITHGAREDDAU

Yn 2007-08, cyflawnodd Tywysog Cymru gyfanswm o 609 o ymrwymiadau swyddogol, ac roedd 77 o'r rheini dramor. Cyflawnodd Duges Cernyw 201 o ymrwymiadau, ac roedd 50 o'r rheini dramor. Mae'r digwyddiadau a'r gweithgareddau sy'n dilyn yn rhoi darlun o hyd a lled gwaith Eu Huchelderau Brenhinol yn ystod y flwyddyn.

Llywyddu yn yr Uwchgynhadledd Fusnes Gŵyl Fai gyntaf ar Newid yn yr Hinsawdd
Ym mis Mai 2007, llywyddodd Tywysog Cymru yn yr Uwchgynhadledd Fusnes Gŵyl Fai gyntaf ym Mhalas St James's i annog y sector busnes i ymrwymo ar y cyd i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Daeth y digwyddiad â dros 1,000 o arweinwyr busnesau mawr, canolig a bach at ei gilydd i gymryd rhan mewn 10 digwyddiad a gafodd eu cynnal ar y cyd ar draws y wlad.

Ymweld â Shetland gyda Brenhines Norwy
Ym mis Mai 2007, daeth Brenhines Sonja o Norwy i Shetland i ymuno â Dug a Duges Rothesay, sef teitlau Eu Huchelderau Brenhinol yn yr Alban, lle'r aeth y tri ati i agor Amgueddfa ac Archifau Shetland yn Lerwick, prif dref yr ynysoedd.

Coffáu'r 25 mlynedd ers y rhyfel yn y Falklands
Ym mis Mehefin 2007, derbyniodd Tywysog Cymru, gyda Duges Cernyw'n bresennol, y saliwt gan filoedd o gyn-filwyr y Falklands y tu allan i Balas Buckingham er mwyn coffáu'r 25 mlynedd ers diwedd y rhyfel ar yr ynys. Cynhaliodd Eu Huchelderau Brenhinol dderbyniad yn St James's hefyd ar gyfer cyn-filwyr y Falklands, yn cynnwys aelodau o Gymdeithas Medalau'r De Atlantig a'r mudiad *Combat Stress* y mae'r Tywysog yn Llywydd arno.

Agor y Drydedd Sesiwn o Gynulliad Cenedlaethol Cymru yng Nghaerdydd gyda'r Frenhines
Ym mis Mehefin 2007, dechreuodd Tywysog Cymru a Duges Cernyw ar eu Taith Haf flynyddol yng Nghymru trwy fynd i agoriad y Drydedd Sesiwn o Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyda'r Frenhines. Yn ystod eu taith yng Nghymru, aeth Eu Huchelderau Brenhinol i Bowys, Ynys Môn, Bangor a Rhondda Cynon Taf.

Duges Cernyw'n lansio HMS Astute
Ym mis Mehefin 2007, lansiodd Duges Cernyw HMS Astute, llong danfor fwyaf a mwyaf pwerus y Llynges Frenhinol, yn iard longau Barrow-in-Furness, yng Nghymbria. Lansiodd y Dduges y llong anferth ynni niwclear a gostiodd £3.5 biliwn, yn y ffordd draddodiadol – nid gyda magnwm o siampên, ond gyda photelaid o gwrw cartref arbennig yr oedd criw'r llong wedi'i wneud.

Ymweld â Thŷ Dumfries ar ôl iddo gael ei adfer ar gyfer y genedl
Ym mis Gorffennaf 2007, aeth Tywysog Cymru ar ei ymweliad cyntaf â'r tŷ hanesyddol y bu â rhan allweddol yn ei brynu i'r genedl am bris o £45 miliwn. Aethpwyd â'i Uchelder Brenhinol o gwmpas Tŷ Dumfries yn Nwyrain Swydd Aeron. Cafodd y tŷ ei brynu gan gonsortiwm dan arweiniad y Tywysog ddyddiau'n unig cyn yr oedd disgwyl i'r tŷ a'r casgliad hanesyddol o ddodrefn Chippendale a dodrefn eraill o'r 18fed Ganrif a oedd ynddo gael eu gwerthu mewn ocsiwn a'u gwasgaru.

Talu teyrnged i gyfraniad eglwysi Mwyafrifoedd Du i fywyd y genedl

Ym mis Tachwedd 2007, aeth Eu Huchelderau Brenhinol i ymweld â Jesus House yn Brent Cross, Gogledd Llundain, i gwrdd arweinwyr Cristnogion du o bob rhan o'r wlad ac i fynd i wasanaeth arbennig o ddiolchgarwch i ddathlu pen-blwydd y Tywysog yn 59 oed. Aeth y Tywysog a'r Dduges o gwmpas yr eglwys i gwrdd â gwirfoddolwyr, staff yr eglwys ac aelodau o'r gynulleidfa, gan ddiolch iddyn nhw am eu gwaith ar ran yr eglwys a'r gymuned.

Duges Cernyw'n cyflwyno medalau ymgyrch Irac i'r 4ydd Bataliwn, Y Rifflau

Ym mis Rhagfyr 2007, talodd Ei Huchelder Brenhinol deyrnged i filwyr 4ydd Bataliwn, Y Rifflau, pan gyflwynodd fedalau iddyn nhw i gydnabod eu gwasanaeth yn Irac. Y Dduges yw Cyrnol Brenhinol y Bataliwn sydd newydd ddod yn ôl ar ôl gwasanaethu yn y Gwlff am chwe mis lle y gwelsant beth o'r brwydro mwyaf chwyrn yn ystod yr ymgyrch.

Siarad yng nghynhadledd "*New Buildings in Old Places*" yn Llundain

Yn ystod araith yng nghynhadledd "*New Buildings in Old Places"* ym Mhalas St James's ym mis Ionawr 2008, galwodd Tywysog Cymru ar i drefweddau hanesyddol Prydain gael eu gwarchod. Cafodd y digwyddiad ei noddi gan ddwy o elusennau'r Tywysog, a'i bwrpas oedd trafod agweddau ar ddatblygiadau newydd mewn llefydd hanesyddol, yn arbennig yng nghanol Llundain.

Tywysog Cymru'n annerch Senedd Ewrop ym Mrwsel

Mewn araith i Senedd Ewrop ym Mrwsel ym mis Chwefror 2008, anogodd Ei Uchelder Brenhinol y gymuned ryngwladol i ffurfio partneriaeth fyd-eang i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd cyn iddi fynd yn rhy hwyr. Daeth ymweliad deuddydd y Tywysog â'r Comisiwn Ewropeaidd ym Mrwsel yn sgil gwahoddiad gan Lywydd y Comisiwn, José Manuel Barroso.

Duges Cernyw'n ymweld ag un o brojectau Barnardo's yng Nghaerlŷr

Ym mis Chwefror 2008, aeth Duges Cernyw i weld project *CareFree* Barnardo's yn Enderby, Caerlŷr. Yn ystod yr ymweliad, cafodd Ei Huchelder Brenhinol, a benodwyd yn Llywydd Barnardo's ym mis Hydref 2007, gyfle i gwrdd llawer o'r bobl ifanc y mae'r ganolfan yn eu cynorthwyo wrth iddyn nhw geisio ymdopi â'r her o ofalu'n llawn amser am aelod sâl neu anabl o'u teuluoedd.

Ymweld â Montserrat yn ystod taith i bump o ynysoedd y Caribî sy'n rhai o wledydd y Deyrnas a'r Gymanwlad

Ym mis Mawrth 2008, aeth Eu Huchelderau Brenhinol i ynys Montserrat i gwrdd â rhai o'r bobl sydd wrthi'n ailadeiladu'r economi leol ac yn cynllunio prif dref yn sgil y difrod a achoswyd pan ffrwydrodd llosgfynydd yn 1997. Aeth y Pâr Brenhinol hefyd i Drinidad a Thobago, St Lucia a Jamaica yn ystod eu hymweliad 11 diwrnod â'r Caribî.

CYFRIFOLDEBAU AMGYLCHEDDOL A CHYMDEITHASOL

Mae Tywysog Cymru wedi bod yn arweinydd amgylcheddol ers dros 30 o flynyddoedd, gan weithio gyda busnesau, llywodraethau a chyrff cenedlaethol a rhyngwladol eraill i amddiffyn yr amgylchedd a mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

Mae Aelwyd Eu Huchelderau Brenhinol yn gwneud gymaint â phosib i gwtogi ar ei hallyriadau o garbon a nwyon tŷ gwydr eraill a, phan mae'n amhosib cwtogi, i wneud iawn am ei hallyriadau.

Craidd y broses o gwtogi ar allyriadau carbon yw cwtogi ar y defnydd o danwyddau sy'n seiliedig ar garbon, a gwella effeithlonrwydd. Mae llawer wedi'i wneud yn barod dros y blynyddoedd diwethaf i gwtogi ar allyriadau'r Aelwyd, yn cynnwys trosi'r systemau trydan yn Birkhall a Highgrove i ddefnyddio trydan "gwyrdd" o ffynonellau cynaliadwy; gosod system wresogi sy'n defnyddio naddion coed yn y ddau dŷ; a gosod boeleri mwy effeithiol yn Clarence House.

Rhan sylweddol o ôl troed yr Aelwyd yw allyriadau teithio. Pan fydd Eu Huchelderau Brenhinol yn teithio yn y DU, y nod yw cwtogi ar allyriadau trwy ddefnyddio ceir, trenau ac awyrennau â llafnau gwthio tyrbo, a defnyddio gwasanaethau rheolaidd lle bynnag y bo hynny'n ymarferol ac yn bosib. Hefyd, wrth dderbyn a threfnu ymrwymiadau, mae mwy o sylw'n cael ei roi i gwtogi ar deithio. Er mwyn cwtogi hefyd ar gyfanswm yr allyriadau wrth deithio mewn car, cafodd Jaguars, Audi a Range Rover y Tywysog eu haddasu i redeg ar danwydd biodiesel 100 y cant sy'n dod o hen olew coginio, ac mae ei Aston Martin 38 oed wedi'i addasu i redeg ar danwydd bioethanol 100 y cant sy'n dod o win sy'n weddill.

Teithio dramor ar ran y Llywodraeth yw'r elfen sy'n cyfrannu fwyaf at ôl troed carbon yr Aelwyd. Mae'n aml yn anodd defnyddio gwasanaethau rheolaidd mewn awyrennau wrth deithio dramor gan fod rhaglen gymhleth, materion diogelwch a ffactorau eraill yn dal i wneud defnyddio awyrennau preifat yn fwy ymarferol. Ar ben hynny, mae pennu amserlen rhaglenni'r teithiau tramor, sef rhywbeth y mae'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad yn hytrach na'r Aelwyd yn ei wneud, yn golygu y gallai allyriadau godi yn hytrach na'n gostwng mewn rhai blynyddoedd, oherwydd bod gofyn teithio ymhellach.

Yn 2007, ar ôl i *Forum for the Future* gwblhau adolygiad amgylcheddol o weithgarwch yr Aelwyd, gosodwyd targed o gwtogi 12.5 y cant ar gyfanswm yr allyriadau o garbon deuocsid cyfwerth (CO_2e) erbyn 2012. Bu'n bosib rhagori ar y targed hwn yn ystod y flwyddyn gyntaf. Gwelwyd gostyngiad o 18 y cant yn yr allyriadau carbon yn 2007-08 o 3,425 tunnell fetrig i 2,795 tunnell fetrig o CO_2e[*]. Bu modd cyflawni hyn yn bennaf trwy newid trefniadau teithio a newid at ddefnyddio cyflenwadau o drydan "gwyrdd".

Gan mai arbedion un tro'n unig a arweiniodd at rai o'r gostyngiadau a welwyd y llynedd, ni ellir disgwyl gweld arbedion tebyg yn y dyfodol, ac efallai y bydd allyriadau tramor yn codi mewn rhai blynyddoedd oherwydd gofynion teithiau tramor mae'n debyg. Ond gan fod mwy a mwy o bryder ynglŷn â newid yn yr hinsawdd, mae'r Aelwyd wedi newid ei tharged o gwtogi 12.5 y cant i gwtogi 25 y cant ar lefelau 2007 erbyn 2012.

Cam cyntaf a phwysicaf y broses o leihau ôl troed carbon yr Aelwyd yw cwtogi ar allyriadau nwyon tŷ gwydr, a phan nad oes modd cwtogi, mae modd defnyddio amryw o brojectau datblygu cynaliadwy o safon yn y DU a thramor i wneud iawn am yr allyriadau. Mae'r defnydd o ddŵr, papur ac ynni'n cael ei fonitro'n

[*] Bu allyriadau'r Aelwyd o garbon yn 2008 yn destun archwilio annibynnol. Mae mwy o fanylion ar **www.princeofwales,gov.uk**

hefyd, fel dangosyddion pwysig o berfformiad amgylcheddol. Mae mwy o fanylion yn y Cyfrif Cynaliadwyedd ar dudalen 54.

Eleni, am y tro cyntaf erioed, mae allyriadau Home Farm, fferm y Tywysog yn Sir Gaerloyw, wedi cael eu dadansoddi. Mae'n anodd cyfrifo allyriadau ffermydd yn fanwl gywir, ond yr amcangyfrif oedd eu bod yn 2,459 tunnell fetrig o CO_2e yn ystod 2007-08. Mae'r Aelwyd wrthi ar hyn o bryd yn gweithio gyda *Forum for the Future* i gytuno ar dargedau ar gyfer cwtogi.

Yn ogystal â gwneud popeth posib i gwtogi ar ei ôl troed carbon ei hun, mae Tywysog Cymru hefyd yn goruchwylio nifer o brojectau sydd â'r nod o effeithio'n gyffredinol ar y newid yn yr hinsawdd. Ym mis Medi 2007, lansiodd y Tywysog y fenter "*ClimateWise Principles*" gyda sector yswiriant y wlad. Mae 38 o gwmnïau yswiriant mawr, yn cynnwys 10 prif gwmni'r DU, wedi mabwysiadu'r chwe egwyddor, sy'n cynnwys ymrwymo i wella gwybodaeth cwsmeriaid a rhoi sylw i'r newid yn yr hinsawdd wrth bennu strategaethau buddsoddi.

Gan ei fod yn gweld bod gan y diwydiant pensiynau rôl i'w chwarae, aeth Ei Uchelder Brenhinol ati i gynnull cyfarfod ym Mhalas St James's ym mis Tachwedd 2007. Daeth cynrychiolwyr yr wyth cronfa bensiynau cyhoeddus mwyaf y byd i'r cyfarfod i drafod strategaethau buddsoddi o safbwynt newid yn yr hinsawdd gyda'r bwriad o greu set o egwyddorion a fyddai'n sail i'w gwaith.

Mae'r Tywysog yn dal i annog y gymuned fusnes yn gyffredinol i weithredu mewn ffyrdd sy'n fwy caredig i'r amgylchedd. Ar 1 Mai 2007, cymerodd ran yn ei Uwchgynhadledd Fusnes Gŵyl Fai gyntaf erioed a oedd â'r nod o annog a darbwyllo'r sector busnes i ymrwymo ar y cyd i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Daeth y digwyddiad â dros 1,000 o arweinwyr busnesau mawr, canolig a bach at ei gilydd i gymryd rhan mewn 10 digwyddiad a gafodd eu cynnal ar y cyd ar draws y wlad, dan arweiniad uwchgynhadledd ym Mhalas St James's gyda'i Uchelder Brenhinol yn bresennol.

Ers i'r Uwchgynhadledd Gŵyl Fai gael ei chynnal flwyddyn yn ôl, mae cyfanswm o 831 o gwmnïau wedi ymuno â "Rhwydwaith Gŵyl Fai" – sef y grŵp mwyaf yn y DU o gwmnïau sy'n gweithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Mae aelodau'r rhwydwaith yn rhannu enghreifftiau o'r arferion gorau, fel technolegau newydd a mentrau amgylcheddol, ac yn ysgogi eu staff, eu cyflenwyr a'u cwsmeriaid i weithredu yn yr un ffordd. Erbyn hyn, mae dros 5,000 wedi gwneud addewidion ac mae 92 y cant o'r rhai a oedd yn cymryd rhan wedi ymrwymo i fesur eu holion traed. Ar ben hynny, mae nifer o gyrff wedi dod at ei gilydd o fewn eu diwydiannau eu hunain i ffurfio grwpiau gweithredu sy'n edrych o safbwynt y sector ar ffyrdd o atal effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Cafodd ail Uwchgynhadledd Gŵyl Fai ei chynnal ym mis Mai 2008.

Y llynedd hefyd, cwblhawyd gwaith Project *Accounting for Sustainability* y Tywysog. Ei Uchelder Brenhinol a sefydlodd y Project yn 2006 i helpu cwmnïau a chyrff y sector cyhoeddus i ymgorffori arferion cynaliadwy yn eu penderfyniadau, eu gwaith arferol a'u trefniadau cyfrifo o ddydd i ddydd, ac i adrodd yn ôl mewn dull syml a chyson ar eu perfformiad o safbwynt cynaliadwyedd. Datblygodd y Project fframwaith ar gyfer creu adroddiadau am eu perfformiad (*Accounting for Sustainability Connected Reporting Framework*) a gwefan (www.sustainabilityatwork.org.uk) lle y gall pobl gael cyngor a chymorth. Mae'r Aelwyd wedi mabwysiadu'r fframwaith ei hun eleni, ac mae gwybodaeth am ei pherfformiad o safbwynt cynaliadwyedd, ynghyd â'r manylion ariannol perthynol, i'w gweld tua diwedd yr Adolygiad hwn.

Yn olaf, un arall o uchafbwyntiau'r llynedd oedd lansio project fforestydd glaw'r Tywysog (*The Prince's Rainforests Project*). Mae mwy o wybodaeth am y project ar gael ar dudalennau 10 ac 11, ac ar www.princesrainforestsproject.org.

Targedau'r Aelwyd o ran cwtogi ar allyriadau carbon

TARGED CYCHWYNNOL 2007-2012	12.5%
CYFLAWNWYD 2007-08	18.4%
TARGED NEWYDD 2007-2012	25.0%

DUGAETH CERNYW

Stad breifat yw Dugaeth Cernyw sy'n ariannu gweithgarwch cyhoeddus, elusennol a phreifat Tywysog Cymru a'i deulu. Mae'r Ddugaeth yn cynnwys tua 54,521 hectar o dir ar draws 23 sir, yn Ne-orllewin Lloegr yn bennaf. Fel Dug presennol Cernyw, mae'r Tywysog yn derbyn rhan weithredol yn y gwaith o redeg y Ddugaeth, a'i athroniaeth yw gwella'r stad a'i throsglwyddo i Ddugiaid y dyfodol yn gadarnach ac mewn gwell cyflwr.

Fel Dug Cernyw, mae gan y Tywysog hawl i gael yr incwm blynyddol net o'r Ddugaeth. Nid oes hawl ganddo i gael unrhyw ran o'r elw a ddaw o werthu asedau cyfalaf y Ddugaeth; mae'r rhain yn aros yn rhan o'r Ddugaeth i gynnig incwm ar gyfer Dugiaid y dyfodol. Nid oes rhaid i'r Ddugaeth dalu treth gorfforaeth gan nad yw'n gwmni (hynny yw, yn endid cyfreithiol ar wahân i bwrpasau treth – yn yr un ffordd nad yw partneriaeth, er enghraifft, yn cael ei thrin fel endid cyfreithiol ar wahân i bwrpasau treth). Ond mae Ei Uchelder Brenhinol yn dewis talu treth incwm ar incwm blynyddol net y stad.

Tir ffermio ac eiddo masnachol a phreswyl yw'r stad yn bennaf. Mae gan y Ddugaeth bortffolio o fuddsoddiadau ariannol hefyd. O ran buddsoddi mewn eiddo, ei strategaeth yn y tymor hir yw bod yn berchen ar bortffolio cytbwys o eiddo o safon, rheoli'r eiddo hwnnw a, lle bynnag y bo hynny'n bosib, ei wella. Bydd y strategaeth hon yn dal i olygu cael gwared ag eiddo dros ben, buddsoddi yn y gwaith o gynnal a gwella'r stad y mae'r Ddugaeth yn dal yn berchen arni, a phrynu eiddo newydd sy'n bodloni ei hamcanion buddsoddi.

Y Trysorlys sy'n goruchwylio trafodion ariannol y Ddugaeth, gyda phwyslais arbennig ar gadw cyfalaf y Ddugaeth ar gyfer Dugiaid y dyfodol a fydd yn elwa arni. Er enghraifft, rhaid cael cymeradwyaeth y Trysorlys i unrhyw drafodion tir sy'n werth dros £500,000.

Bu canlyniadau ariannol 2007-08 yn gadarn er gwaethaf y ffaith fod y farchnad yn y sectorau buddsoddi y mae'r Ddugaeth ar waith ynddi'n gyfnewidiol. Cynyddodd y Cyfrif Cyfalaf ei werth o wyth y cant i £647 miliwn, a'r cynnydd blynyddol mwyaf ers 25 mlynedd yng ngwerth tir amaethyddol sy'n gyfrifol am y twf hwnnw'n bennaf. Cynyddodd y Gwarged Refeniw ar gyfer y flwyddyn o saith y cant i £16.27 miliwn.

Un o brojectau mwyaf y Ddugaeth yw Poundbury, y datblygiad ar dir y Ddugaeth ar ffurf estyniad i dref Dorchester, yn Dorset. Dros y ddau ddegawd diwethaf, mae'r Ddugaeth wedi helpu i greu synnwyr o gymuned leol yn Poundbury trwy integreiddio tai preifat a thai cymdeithasol, cynllunio strydoedd sy'n rhoi blaenoriaeth i gerddwyr, cwtogi ar bwysau cymudo trwy osod swyddfeydd a chyfleusterau masnachol a diwydiannol ysgafn mewn ardaloedd preswyl, a dylunio adeiladau sy'n batrwm o gymeriad a thraddodiadau pensaernïol yr ardal. Mae llwyddiant Poundbury, datblygiad y mae'r Tywysog ei hun wedi'i oruchwylio, wedi ennyn diddordeb ym mhob rhan o'r byd, ac mae amryw o wahanol gyrff sy'n ymwneud â gwaith cynllunio a datblygu yn y DU a thramor yn gwneud dros 80 o ymweliadau'r flwyddyn, dan arweiniad y Ddugaeth.

Y Trysorlys sy'n goruchwylio trafodion ariannol y Ddugaeth, gyda phwyslais arbennig ar gadw cyfalaf y Ddugaeth ar gyfer Dugiaid y dyfodol a fydd yn elwa arni.

Yn ystod y flwyddyn, rhyddhawyd y 12 acer olaf o dir datblygu cymysg fel rhan o Gam 2, ac fe gadarnhawyd y cynlluniau ar gyfer canolbwynt y project cyfan, sef Sgwâr y Fam Frenhines. Mae tua hanner project Poundbury wedi cael ei adeiladu bellach. Un o'i brif amcanion yw cwtogi ar effaith y datblygiad ar yr amgylchedd, a'r gobaith yw dechrau cyn bo hir ar y gwaith o osod system wresogi newydd ar gyfer Cwadrant y De-orllewin i roi gwres a phŵer o ffynonellau cynaliadwy.

Un o uchafbwyntiau'r llynedd oedd gweld y Ddugaeth yn prynu fferm Gymreig 192 acer o faint ger Myddfai yn Sir Gaerfyrddin ym mis Mawrth 2007. Ar ôl i'r gwaith adfer ac addasu ar fferm Llwynywermod gael ei gwblhau yn ystod haf 2008, y fferm fydd cartref Tywysog Cymru a Duges Cernyw pan maen nhw yng Nghymru. Bydd yr eiddo'n cael ei osod yn fasnachol hefyd fel canolfan gynadleddau, a bydd nifer o'r unedau preswyl ategol ar gael i bobl eu rhentu ar gyfer gwyliau pan nad ydyn nhw'n cael eu defnyddio i bwrpasau eraill. Mae'r Ddugaeth wedi ceisio defnyddio deunyddiau a gweithwyr lleol wrth addasu'r fferm mewn ffordd gynaliadwy, ac roedd hynny'n golygu defnyddio naddion pren biomas i wresogi'r fferm yn ogystal â llawer o nodweddion eraill sy'n ffafrio'r amgylchedd.

Mae'r Ddugaeth yn dal i ehangu ei busnes gosod bythynnod gwyliau'n uniongyrchol ac yn ystod 2007-08 fe gwblhawyd y gwaith ar dri bwthyn, sy'n golygu bod cyfanswm o 10 bwthyn ar gael erbyn hyn. Mae'r gwaith datblygu'n mynd rhagddo ar 12 bwthyn arall, yn cynnwys naw yn Restormel yng Nghernyw. Mae Restormel Manor yn rhan ganolog o Faenor Restormel, un o'r Maenorau gwreiddiol a gyflwynwyd i'r Ddugaeth yn 1337. Nid yw'r tai allan bellach yn diwallu anghenion amaethu yn yr oes fodern, felly aeth Dugaeth Cernyw ati ar ôl i denant y tŷ adael i ddechrau ar y gwaith o addasu'r Maenordy a'r tai allan i gynnig dyfodol hir a chadarn i'r hyn sy'n ased hanesyddol pwysig iawn.

Un arall o brojectau pwysig 2007-08 oedd adeiladu pedwar cei newydd ar Ynysoedd Sili. Mae llongau mwy'n gallu defnyddio'r ceiau newydd hyn, sydd hefyd yn rhoi sylw i faterion fel codiad yn lefel y môr, iechyd a diogelwch, a gwaith cynnal a chadw yn y tymor hir. Cyfanswm y gost o adeiladu'r ceiau oedd £4.3 miliwn, sef buddsoddiad o £2.3 filiwn gan y Ddugaeth a grant o £2 filiwn gan yr Adran Drafnidiaeth. Rhagwelir y bydd y ceiau'n gallu cynnig mynediad rhwydd a diogel i'r ynysoedd am o leiaf 50 mlynedd i'r preswylwyr, yr ymwelwyr a'r rhai sy'n cario nwyddau.

Mewn mannau eraill, mae'r Ddugaeth yn rhoi bwriad y Tywysog ar waith o gynnig mwy o gartrefi fforddiadwy yng nghefn gwlad. Mae nifer o gynlluniau ar waith ar dir y stad ac fe agorodd y Tywysog un yn Bletchingdon, Swydd Rydychen, ym mis Chwefror 2008 a fydd yn cynnig cartrefi i bobl yr ardal.

PROJECT FFORESTYDD
GLAW'R TYWYSOG

Ers blynyddoedd lawer, y prif beth a oedd yn ysgogi pobl i amddiffyn fforestydd glaw'r byd rhag cael eu dinistrio oedd dymuniad i warchod eu bioamrywiaeth werthfawr ac i ddiogelu bywoliaeth yr holl filiynau o bobl sy'n byw ynddyn nhw.

Er hynny, nid oedd pobl yn llwyr sylweddoli pa mor ddifrifol yw effaith datgoedwigo ar hinsawdd y blaned. Dim ond yn ddiweddar iawn yr ydyn ni wedi dod i ddeall bod y dechneg "torri a llosgi" o ddinistrio'r fforestydd glaw'n rhyddhau biliynau o dunelli metrig o nwyon tŷ gwydr i'r atmosffer bob blwyddyn, a bod hyn yn cyfrannu llawer at gynhesu byd-eang. Yn wir, datgoedwigo yw'r drydedd ffynhonnell fwyaf o allyriadau – yn fwy hyd yn oed na'r sector trafnidiaeth.

Ac i wneud pethau'n waeth, mae torri'r coed yn datgymalu'r elfen bwysicaf un sy'n rheoli hinsawdd y byd. Mae'r fforestydd glaw'n storio ac yn rhyddhau symiau enfawr o anwedd dŵr, gan eu helpu i weithredu fel system aerdymheru a thermostat y blaned ac fel y ffynhonnell mewn rhannau helaeth o'r byd o law. Heb y glaw a'r dŵr croyw hyn byddai'n llawer anoddach cynhyrchu bwyd. Nid gor-ddweud yw sôn y byddai'r frwydr yn erbyn y newid yn yr hinsawdd yn cael ei cholli pe bai'r frwydr yn erbyn datgoedwigo'n cael ei cholli.

Yr angen dybryd hwn a chenadwri taer arbenigwyr ar goedwigo a ysgogodd Tywysog Cymru i sefydlu ei broject ei hun i helpu i chwilio am atebion i'r broblem. Yn ôl y Tywysog: "Mae'n debyg mai rhwystro datgoedwigo fydd un o'r dulliau cyflymaf a mwyaf cost-effeithiol o gwtogi ar allyriadau carbon deuocsid. Sylfaen y broblem yw sut yr ydyn ni'n mesur gwir werth y fforestydd glaw sy'n dal yno... yn syml, rhaid i ni ddod o hyd i ffyrdd i'w gwneud nhw'n fwy gwerthfawr yn fyw nac yn farw."

Dyma nod sylfaenol Project Fforestydd Glaw'r Tywysog (*The Prince's Rainforests Project* neu PRP), sydd wedi dod â 15 o gwmnïau mwyaf a mwyaf dylanwadol y byd ac arbenigwyr ar yr amgylchedd a'r economi at ei gilydd i chwilio am atebion ymarferol i'r broblem. Gan ddefnyddio dylanwad a gallu'r Tywysog i ddylanwadu ar lywodraethau, busnesau a chyrff anllywodraethol allweddol, y bwriad yw awgrymu ffyrdd o fesur gwerth y fforestydd glaw a'r gwasanaethau amhrisiadwy y maen nhw'n eu darparu ac y gallwn ni eu colli am byth, a'r ffyrdd o dalu am y gwasanaethau hyn.

Dywedodd Ei Uchelder Brenhinol yn ei araith wrth lansio PRP ym mis Hydref 2007 yn ystod un o ddigwyddiadau Cronfa Bywyd Gwyllt y Byd (WWF) yn Llundain: "Mae'n rhaid ei bod hi'n ddyletswydd foesegol ar genedlaethau cyfoethog y byd, sydd wedi creu problem y newid yn yr hinsawdd, i ddod o hyd i atebion teg iddi. Mae hynny'n golygu gweithio gyda'r gwledydd sy'n datblygu (a fydd, fel mae'n digwydd, yn dioddef fwyaf ac yn fwyaf buan o effeithiau'r newid yn yr hinsawdd) i ddod o hyd i ffyrdd dyfeisgar ac arloesol o dalu'r pris priodol am y gwasanaethau ecosystem y mae'r fforestydd sydd ar ôl yn eu cynnig i'r byd."

Fel ei fenter ddiweddaraf, mae Project y Fforestydd Glaw'n adeiladu ar y 23 mlynedd o brofiad sydd gan Dywysog Cymru o annog busnesau a chyrff anllywodraethol i weithio gyda'i gilydd er lles pawb.

Dim ond yn ddiweddar iawn yr ydyn ni wedi dod i ddeall bod y dechneg "torri a llosgi" o ddinistrio'r fforestydd glaw'n rhyddhau biliynau o dunelli metrig o nwyon tŷ gwydr i'r atmosffer bob blwyddyn, a bod hyn yn cyfrannu llawer at gynhesu byd-eang. Yn wir, datgoedwigo yw'r drydedd ffynhonnell fwyaf o allyriadau.

TŶ DUMFRIES (HOUSE)

Pan aeth consortiwm dan arweiniad Tywysog Cymru ati ar ddiwedd mis Mehefin 2007 i brynu Tŷ Dumfries (*House*) yn Nwyrain Swydd Aeron am £45 miliwn, gwelwyd y pryniant fel un o'r camau pwysicaf yn hanes achub treftadaeth Prydain.

Ar ôl i'w Uchelder Brenhinol gyfrannu bron hanner y pris gwerthu, llwyddwyd ar y funud olaf un i brynu Tŷ Dumfries. Derbyniodd Ardalydd Bute, perchennog y tŷ, y cynnig am yr eiddo a'r casgliad unigryw o ddodrefn sydd ynddo gan y Tywysog a'i bartneriaid yn y consortiwm (Llywodraeth yr Alban, *The Art Fund*, Sefydliad Garfield Weston, *The Monument Trust*, Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol, a *SAVE Britain's Heritage*) ddau ddiwrnod yn unig cyn y dyddiad yr oedd y cyfan i gael ei werthu mewn arwerthiannau ar wahân.

Daeth y pryniant mor hwyr yn y dydd fel bod rhaid galw lorïau a oedd yn cario peth o ddodrefn gwerthfawr y tŷ i Lundain i'w gwerthu mewn arwerthiannau, yn ôl i'r Alban.

Cymerodd y Tywysog rhan flaenllaw yn y frwydr i achub Tŷ Dumfries am ei fod yn credu y byddai wedi bod yn drychineb i dreftadaeth y DU ac i'r genedl pe bai'r tŷ a'r cynnwys wedi cael eu gwahanu a'u colli. Cafodd y tŷ ei ddylunio gan y brodyr Adam yn yr 1750au, ac fe gafodd amryw o'r darnau yn y casgliad anhygoel hwn o ddodrefn eu gwneud yn arbennig ar gyfer y tŷ gan Thomas Chippendale a'i gyfoedion ymhlith gwneuthurwyr dodrefn Caeredin. Prin y bu unrhyw newidiadau i'r tŷ ei hun a'r dodrefn sydd ynddo yn ystod y ddwy ganrif a hanner ddiwethaf.

Gwelodd Ei Uchelder Brenhinol y pryniant fel cyfle i ddefnyddio Tŷ Dumfries fel catalydd ar gyfer adfywio un o ardaloedd yr Alban a welodd amddifadedd economaidd dwys yn sgil cau pyllau glo'r ardal. Agorodd y tŷ i'r cyhoedd ym mis Mehefin 2008 a bydd yn cynnig swyddi lleol ac incwm gwerthfawr o dwristiaeth. Ar ben hynny, mae Sefydliad y Tywysog er yr Amgylchedd Adeiledig (*The Prince's Foundation for the Built Environment*) wedi dechrau ar y gwaith o gynllunio datblygiad cynaliadwy amlddefnydd ar dir ar gyrion Cumnock a brynwyd fel rhan o'r eiddo.

Dywedodd Marcus Binney, Llywydd SAVE Britain's Heritage a'r un a rybuddiodd y byddai'r arwerthiant a rhannu Tŷ Dumfries wedi bod yn "drychineb ddiwylliannol" i Brydain, na fyddai wedi bod yn bosib achub yr eiddo heb gyfraniad y Tywysog: "Dyma un o'r sefyllfaoedd 'min dibyn' mwyaf yn hanes plastai yn y wlad, ond mae'r canlyniad yn hwb i'r genedl gyfan."

MENTER GOGLEDD YR UCHELDIROEDD

Sylfaen holl ymdrechion a gwaith Menter Gogledd yr Ucheldiroedd (*North Highland Initiative* neu NHI) ers i Dywysog Cymru ei sefydlu yn 2005 oedd yr her o ddatblygu potensial economaidd, amgylcheddol a diwylliannol un o rannau mwyaf anghysbell Prydain sydd heb weld llawer o'r math hwn o ddatblygu.

Ymhlith gweithgareddau'r project hwn y mae gwerthu cig eidion sydd wedi'i fridio'n lleol a chynhyrchion eraill dan frand "Mey Selections", a dyfeisio ymgyrch farchnata newydd o'r enw "*Pleasure in the Extreme*" i hybu twristiaeth. Nod y project o'r cychwyn oedd creu a chynnal ffynonellau newydd o incwm ar gyfer pobl a busnesau Caithness, Sutherland a Swydd Ross.

Aeth y fenter, a gafodd ei sefydlu gan y Tywysog i hybu'r economi yn rhannau mwyaf gogleddol yr Alban, ymlaen ym mis Gorffennaf 2007 i drydydd cam a cham olaf ei chynllun. Ar ôl lansiad llwyddiannus y cynnyrch "Mey Selections" a lansio ymgyrch dwristiaeth yr ardal, cafodd rhaglen newydd NHI ar gyfer yr amgylchedd adeiledig (*Built Environment Programme*) ei dadorchuddio'n ffurfiol yn ystod gweithdy "ymholi trwy ddylunio" yn Castletown. Nod y gweithdy oedd helpu i ddod o hyd i ffyrdd newydd o ddefnyddio adeiladau hanesyddol yr ardal.

Yn ogystal â chreu prif gynllun ar gyfer adfywio Castletown a'r pentref cyfagos Castlehill fel ei gilydd, bydd Sefydliad y Tywysog er yr Amgylchedd Adeiledig, Ymddiriedolaeth Adfywio'r Tywysog (*The Prince's Regeneration Trust*) ac amryw o asiantaethau, adeiladwyr a datblygwyr lleol yn cydweithio i wella ansawdd, cymeriad a chynaliadwyedd adeiladau hanesyddol yr ardal, a'i datblygiadau o gartrefi newydd. Yr un pryd, bydd NHI yn gweithio gyda'i bartneriaid i hybu'r gwaith o hyfforddi'r gweithlu lleol ym maes sgiliau adeiladu traddodiadol.

Un o brif amcanion y rhaglen fydd ystyried sut y gellid rhwystro'r twf yn nifer y cartrefi yn yr ardal rhag niweidio'r amgylchedd, hagru'r dirwedd neu effeithio'n niweidiol ar ddiwydiant amaethyddol yr ardal a'r bobl sy'n dibynnu arno am eu bywoliaeth. Dywedodd Hank Dittmar, prif weithredwr y Sefydliad er yr Amgylchedd Adeiledig: "Bydd y canolbwynt ar greu twf cynaliadwy sy'n cyfrannu at harddwch cefn gwlad yr ardal, ansawdd bywydau'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yno, ac at brofiadau'r rheini sy'n ymweld â hi."

Y gobaith yw y bydd y rhaglen newydd yn ychwanegu at lwyddiant dau gam cyntaf NHI. Yn ystod ei hail flwyddyn o fasnachu, gwelodd busnes *North Highland Products* drosiant o £8.6 miliwn gan ddod ag elw ychwanegol sylweddol i ffermwyr a chynhyrchwyr bwyd yr ardal wrth i ymgyrch hysbysebu newydd Twristiaeth Gogledd yr Ucheldiroedd ennill ei phlwyf.

Yn sgil llwyddiant NHI, mae Tywysog Cymru wedi helpu i sefydlu amryw o fentrau marchnata ffermwyr lleol yn y Peak District, Mynyddoedd Cambria yng Nghanolbarth Cymru ac yn Dartmoor.

YR YMDDIRIEDOLAETH BRYDEINIG ASIAIDD

Efallai fod trefnu gêm griced rhwng India a Phacistan yng Nglasgow yn ystod un o hafau gwlyb nodweddiadol Prydain yn ymddangos fel rhywbeth y mae aelod o'r Teulu Brenhinol yn annhebygol o'i wneud, ond helpodd y digwyddiad yn ystod mis Gorffennaf 2007 i godi arian i ddechrau'r broses o sefydlu elusen ddiweddaraf y Tywysog - yr Ymddiriedolaeth Brydeinig Asiaidd.

Nod yr elusen newydd yw sefydlu cronfa sylweddol i fuddsoddi mewn swyddi, projectau hyfforddi a mentrau cymdeithasol cynaliadwy yn India, Pacistan a Sri Lanca, yn ogystal â mewn rhai o ardaloedd neilltuol y DU. Mae Ei Uchelder Brenhinol y credu y gallai'r Ymddiriedolaeth Brydeinig Asiaidd dynnu ei nerth a'i phwrpas o'r cysylltiadau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol cadarn ac amrywiol sy'n bod rhwng y DU a gwledydd a phobloedd De Asia.

Wrth annerch mewn cinio arbennig yng Nghastell Windsor ym mis Tachwedd 2007 i gydnabod cymuned Asiaidd Prydain, nododd y Tywysog fod dwy filiwn o bobl o Dde Asia wedi setlo yn y DU a dywedodd: "Rydyn ni'n clywed llawer am y problemau a allai ddod yn sgil y fath fewnfudo, ond anaml iawn yr ydyn ni'n gwneud amser i edrych ar y cyfraniad hynod a allai ei gynnig i'r wlad."

Roedd llawer o Brydeinwyr Asiaidd llwyddiannus yn bresennol yn y cinio, yn cynnwys y comedïwr Sanjeev Baskhar a'i wraig, yr actores a'r awdures Meera Syal, yr entrepreneur Saira Khan, yr awdur Vikrem Seth, y darllenydd newyddion Krishnan Guru-Murthy a'r actor Art Malik.

Fe glywon nhw'r Tywysog yn dweud bod dwyster diamser i ddiwylliant Asia a'i fod yn cyffwrdd pob stryd ym Mhrydain, "nid dim ond y stryd lle mae'r Kumars yn byw yn Rhif 42". Ychwanegodd: "Mae gennym ni i gyd rôl i'w chwarae wrth ffurfio'n cymdeithas ar sail goddefgarwch a dealltwriaeth. Nid yw hyn yn hawdd bob amser. Mae pobl ifanc o bob cefndir ethnig wrthi'n ceisio gweld i ba ran o'r gymdeithas y maen nhw'n perthyn."

Gyda chymorth ei phartneriaid masnachol a chyrff eraill, mae'r Ymddiriedolaeth Brydeinig Asiaidd yn gobeithio codi arian trwy gynnal digwyddiadau sy'n gysylltiedig â meysydd ffasiwn, cerddoriaeth a chwaraeon. Bydd yr arian yn cael ei wario yn y pum gwlad i hybu cyfleoedd a menter (yn arbennig ymhlith pobl ifanc), i gynnig hyfforddiant, sgiliau a swyddi, ac i hybu datblygu cynaliadwy mewn ardaloedd trefol a gwledig ac annog gwahanol gymunedau i gydweithredu'n well.

Mae gennym ni i gyd rôl i'w chwarae wrth ffurfio'n cymdeithas ar sail goddefgarwch a dealltwriaeth. Nid yw hyn yn hawdd bob amser. Mae pobl ifanc o bob cefndir ethnig wrthi'n ceisio gweld i ba ran o'r gymdeithas y maen nhw'n perthyn.
Tywysog Cymru
Castell Windsor, Tachwedd 2007